# TGAU Cymraeg Iaith

## Uned 2

## Papur Arholiad

## Adran B: Prawf ddarllen

Arddodiaid

Ansoddeiriau

Berfau

Enw gwrywaidd

Rhagenwau

Enw benywaidd

Cystrawen


# Rheolau iaith yn ymwneud ag: ARDDODIAID



Mae'r ferch yn eistedd ar y gadair.



Mae'r bachgen yn eistedd wrth ei ddesg.



Mae'r ceffyl yn neidio dros y glwyd.

am

ar

dan

dros

drwy

wrth

at

hyd

i

o

heb

gan

# Arddodiaid

cbac wjec

Dyma 12 o arddodiaid sy'n cael eu defnyddio'n aml:

| | | |
|---|---|---|
| am | ar | at |
| dan | dros | drwy |
| i | o | wrth |
| hyd | heb | gan |

Dysgwch nhw!!

# Arddodiaid eraill

Dyma rai arddodiaid eraill:

**yn**

â

mewn

rhag

ynghylch

# Fedrwch chi adnabod yr arddodiaid?

Eisteddodd ar gadair nesaf at ei ffrind gorau yn y sinema.

# Fedrwch chi adnabod yr arddodiaid?

Eisteddodd ar gadair nesaf at ei ffrind gorau yn y sinema.

Eisteddodd **ar** gadair nesaf **at** ei ffrind gorau **yn** y sinema.

Beth sy'n digwydd i'r gair sy'n dod ar ôl yr arddodiad?

# Rheol 1

Rhaid cael treiglad meddal yn dilyn arddodiad.

# Tasg: Aroleuwch yr arddodiaid mewn un lliw a'r treiglad meddal mewn lliw arall. Nid oes treiglad meddal yn dilyn POB arddodiad yn y darn.

Cerddodd Alaw i'r ystafell ddosbarth ac edrychodd ar y disgyblion oedd yn eistedd yn daclus wrth eu desgiau. Trodd llygaid pob un i syllu ar y ferch newydd. Sylwodd Alaw ar yr athrawes yn chwilio am lyfrau'r dosbarth ar y silff ger y ffenest ac aeth ati gan geisio peidio ag edrych eto ar y disgyblion eraill. Gwenodd yr athrawes ar Alaw ac ar ôl ei chroesawu dywedodd wrthi am eistedd wrth y ddesg ger y ffenest. Wrth gerdded, edrychai ar y llawr a chamodd dros fag oedd ar ganol y llawr. Eisteddodd wrth ei desg a sylwodd ar y ferch wrth ei hochr yn gwenu'n gynnes arni. Efallai na fyddai pethau mor ddrwg wedi'r cyfan.

# Gwirio'ch gwaith – tybed sawl arddodiad y daethoch chi o hyd iddynt?

Cerddodd Alaw **i**'r ystafell ddosbarth ac edrychodd **ar** y disgyblion oedd yn eistedd yn daclus **wrth** eu desgiau. Trodd llygaid pob un **i** syllu **ar** y ferch newydd. Sylwodd Alaw **ar** yr athrawes yn chwilio **am** lyfrau'r dosbarth **ar** y silff **ger** y bwrdd gwyn ac aeth **at**i gan geisio peidio **ag (â)** edrych eto **ar** y disgyblion eraill. Gwenodd yr athrawes **ar** Alaw ac wedi iddi ei chroesawu dywedodd **wrth**i am eistedd **wrth** y ddesg **ger** y ffenest. **Wrth** gerdded, edrychai **ar** y llawr a chamodd **dros** fag oedd **ar** ganol y llawr. Eisteddodd **wrth** ei desg a sylwodd **ar** y ferch **wrth** ei hochr yn gwenu'n gynnes **ar**ni. Efallai na fyddai pethau mor ddrwg wedi'r cyfan.

# Tasg: Cywirwch y brawddegau.

Cerddodd Twm at drws yr ystafell.

Aeth Jac i gweld ffilm yn y sinema ddoe.

Cefais ddiod am dim am helpu i clirio.

Darllenodd ddwy bennod o llyfr am ei hoff glwb pêl-droed.

# Tasg: Cywirwch y brawddegau.

Cerddodd Twm at drws yr ystafell.

Cerddodd Twm at ddrws yr ystafell.

Aeth Jac i gweld ffilm yn y sinema ddoe.

Aeth Jac i weld ffilm yn y sinema ddoe.

Cefais ddiod am dim am helpu i clirio.

Cefais ddiod am ddim am helpu i glirio.

Darllenodd ddwy bennod o llyfr am ei hoff glwb pêl-droed.

Darllenodd ddwy bennod o lyfr am ei hoff glwb pêl-droed.

# Beth yw'r gwall yn y brawddegau?

Aeth i'r deintydd heddiw.

Dywedodd i'r prifathro ei fod yn teimlo'n sâl.

Cafodd y bachgen gyfle i siarad i'r athro heddiw.

Byddaf yn mynd i'r meddyg yr wythnos nesaf.

Ysgrifennais i fy ffrind.

Ysgrifennais at y cyngor sir.

# Rheol 2

Rhaid defnyddio'r arddodiad cywir gyda'r ferf

# Felly, beth yw'r gwall yn y brawddegau? Oeddech chi'n gywir?

Aeth i'r deintydd heddiw.

Aeth at y deintydd heddiw.

Dywedodd i'r prifathro ei fod yn teimlo'n sâl.

Dywedodd wrth y prifathro ei fod yn teimlo'n sâl.

Cafodd y bachgen gyfle i siarad i'r athro heddiw.

Cafodd y bachgen gyfle i siarad â'r athro heddiw.

Byddaf yn mynd i'r meddyg yr wythnos nesaf.

Byddaf yn mynd at y meddyg yr wythnos nesaf.

Ysgrifennais lythyr i fy ffrind.

Ysgrifennais lythyr at fy ffrind.

Ysgrifennais at y cyngor sir.

Ysgrifennais lythyr i'r cyngor sir.

# Dyma rai arddodiaid sy'n cael eu defnyddio'n anghywir yn aml:

siarad i x
siarad â

dweud i x
dweud wrth

gofyn wrth x
gofyn i

paid a x
paid â

mynd i'r deintydd / doctor x
mynd at y deintydd / doctor

Ysgrifennu llythyr at berson
Ysgrifennu llythyr i gwmni/sefydliad

YN – rhywbeth penodol (in the) e.e. Roedd Alaw yn y car coch.
MEWN – mwy cyffredinol (in a) e.e. Roedd Alaw mewn car coch.

# Adolygu rheol 1 a rheol 2

Cywirwch y brawddegau.

Roedd Llion ar brys i gyrraedd y parti.

Dywedodd i'w ffrind nad oedd yn mynd i'r cyfarfod.

Paid a gwneud hynna eto!

Roedd Tomos yn teithio mewn y car.

Aeth i'r doctor ddoe.

# Adolygu rheol 1 a rheol 2

Cywirwch y brawddegau.

Roedd Llion ar brys i gyrraedd y parti.
Roedd Llion ar frys i gyrraedd y parti.
Dywedodd i'w ffrind nad oedd yn mynd i'r cyfarfod.
Dywedodd wrth ei ffrind nad oedd yn mynd i'r cyfarfod.
Paid a gwneud hynna eto!
Paid â gwneud hynna eto.
Roedd Tomos yn teithio mewn y car.
Roedd Tomos yn teithio yn y car. (neu mewn car)
Aeth i'r doctor ddoe.
Aeth at y doctor ddoe.

# Beth sydd o'i le ar y brawddegau hyn?

Taflodd ddŵr ar fi.

Paid â siarad am hi.

Dyma'r gyfres y daw'r ffilm o hi.

Prynodd Rhian anrheg i fo/fe.

Gyrrais lythyr at nhw.

Gwelodd Fflur giât a neidiodd dros hi.

# Rheol 3

Rhaid rhedeg arddodiad gyda rhagenw personol

(fi, ti, fo/fe, hi, ni, chi, nhw)

# Felly, beth yw'r gwall yn y brawddegau? Oeddech chi'n gywir?

Taflodd ddŵr ar fi.

Taflodd ddŵr arnaf fi.

Paid â siarad am hi.

Paid â siarad amdani hi.

Dyma'r gyfres y daw'r ffilm o hi.

Dyma'r gyfres y daw'r ffilm ohoni hi.

Prynodd Rhian anrheg i fo/fe.

Prynodd Rhian anrheg iddo fo/fe.

Gyrrais lythyr at nhw.

Gyrrais lythyr atyn nhw.

Gwelodd Fflur giât a neidiodd dros hi.

Gwelodd Fflur giât a neidiodd drosti hi.

Wrth roi rhagenw gydag arddodiad fe fyddwch yn ffurfio’r arddodiad rhedadwy:

ar fi >

arnaf fi

ar ti >

arnat ti

ar fo/fe >

arno fe/fo

ar hi >

arni hi

ar ni >

arnon ni

ar chi >

arnoch chi

ar nhw >

arnyn nhw

# Dyma rai eraill…

| am | |
|---|---|
| amdanaf i | amdanon ni |
| amdanat ti | amdanoch chi |
| amdano fe/fo<br>amdani hi | amdanyn nhw |

| at | |
|---|---|
| ataf i | aton ni |
| atat ti | atoch chi |
| ato fe/fo<br>ati hi | atyn nhw |

| dros | |
|---|---|
| drosof i | droson ni |
| drosot ti | drosoch chi |
| drosto fe/fo<br>drosti hi | drostyn nhw |

| i | |
|---|---|
| i mi | i ni |
| i ti | i chi |
| iddo fe/fo<br>iddi hi | iddyn nhw |

| o | |
|---|---|
| ohonof i | ohonon ni |
| ohonot ti | ohonoch chi |
| ohono fe/fo<br>ohoni hi | ohonyn nhw |

| gan | |
|---|---|
| gennyf i | gennym ni |
| gennyt ti | gennych chi |
| ganddo fe/fo<br>ganddi hi | ganddyn nhw |

**PWYSIG – dim ond wrth redeg arddodiad yn y trydydd person y gallwch chi ddefnddio 'dd'**

**iddo fi x  iddo ti x iddyn ni x**

## Rhedwch yr arddodiaid yn y brawddegau hyn yn gywir:

Edrychodd Aron ar hi’n flin.

Cefais anrheg gan fo/fe heddiw.

Dyma’r ffens y neidiodd y ci dros hi.

Cerddodd y ferch at hi.

Rhoddodd anrheg iddof i.

## Rhedwch yr arddodiaid yn y brawddegau hyn yn gywir:

Edrychodd Aron ar hi'n flin.

Edrychodd Aron arni hi'n flin.

Cefais anrheg gan fo/fe heddiw.

Cefais anrheg ganddo fo/fe heddiw.

Dyma'r ffens y neidiodd y ci dros hi.

Dyma'r ffens y neidiodd y ci drosti hi.

Cerddodd y ferch at hi.

Cerddodd y ferch ati hi.

Rhoddodd anrheg iddof i.

Rhoddodd anrheg i mi.

# Beth yw’r gwall yn y brawddegau?

Ble ti’n dod o?

Ble ti’n mynd i?

Pwy ti’n siarad am?

Dyma’r car roedd hi yn.

Pa athro ti’n mynd at?

# Rheol 4

Ni ddylid gorffen brawddeg ag arddodiad heb ei redeg.

# Felly, beth yw'r gwall yn y brawddegau? Oeddech chi'n gywir?

Ble ti'n dod o?

O ble ti'n dod?

Ble ti'n mynd i?

I ble ti'n mynd?

Pwy ti'n siarad am?

Am bwy rwyt ti'n siarad?

Dyma'r car yr oedd hi yn.

Dyma'r car yr oedd hi ynddo.

Pa athro ti'n mynd at?

Pa athro ti'n mynd ato?

Gallwch naill ai redeg yr arddodiad ar ddiwedd y frawddeg neu ei symud i ddechrau'r frawddeg.

# Beth yw'r gwall yn y brawddegau?

Rwy'n byw yn Carrog.

Mae Casi'n byw yn Porthmadog.

Yn Bangor mae Elen yn byw.

Yn Dinbych mae'r parti.

Mae chwarel yn Trefor.

# Rheol 5

Mae treiglad trwynol yn dilyn yr arddodiad ‘yn’.

# Felly, oeddech chi'n gywir?:

Rwy'n byw yn Carrog.

Rwy'n byw yng Ngharrog.

Mae Casi'n byw yn Porthmadog.

Mae Casi'n byw ym Mhorthmadog.

Yn Bangor mae Elen yn byw.

Ym Mangor mae Elen yn byw.

Yn Dinbych mae'r parti.

Yn Ninbych mae'r parti.

Mae chwarel yn Trefor.

Mae chwarel yn Nhrefor.

Beth yw'r rheol?

Mae treiglad trwynol yn dilyn yr arddodiad 'yn'.

# Cywirwch y brawddegau hyn – bydd angen i chi gofio'r holl reolau y tro hwn!

Roedd y bachgen yn edrych ar fi.

Ble ti'n mynd i?

Dw i'n byw yn Pwllheli.

Dywedais i'r athro fy mod wedi gorffen fy ngwaith.

Roedd y ferch ar brys i gyrraedd ei hoff wers.

# Cywirwch y brawddegau hyn – bydd angen i chi gofio'r holl reolau y tro hwn!

Roedd y bachgen yn edrych ar fi.

Roedd y bachgen yn edrych arnaf fi.

Ble ti'n mynd i?

I ble rwyt ti'n mynd?

Dw i'n byw yn Pwllheli.

Dw i'n byw ym Mhwllheli.

Dywedais i'r athro fy mod wedi gorffen fy ngwaith.

Dywedais wrth yr athro fy mod wedi gorffen fy ngwaith.

Roedd y ferch ar brys i gyrraedd ei hoff wers.

Roedd y ferch ar frys i gyrraedd ei hoff wers.